

Hysbysiad preifatrwydd llawn

1. Cyflwyniad

Yr adnodd annibynnol ar gyfer addysg uwch yw Darganfod Prifysgol ac mae'n cael ei redeg gan arian y DU a chyrrff rheoleiddiol ar gyfer addysg uwch, sy'n cynnwys y Swyddfa Fyfyrrwyr, Cyngor Cyllido'r Alban, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Adran yr Economi (Gogledd Iwerddon).

Hoffem wybod eich barn ar sut i wella'r wefan yn y dyfodol, megis pa adnoddau fydd fwyaf perthnasol i athrawon a chynghorwyr i'w defnyddio neu wella dyluniad y wefan.

Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Eich gwahodd i ddod i weithdai
- Eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon adborth
- Eich gwahodd i gymryd rhan mewn profion defnyddwyr

Caiff unrhyw gyfranogiad yn y gweithgareddau hyn ei ddefnyddio er mwyn gwella Darganfod Prifysgol yn unig.

2. Pwy ydym ni

Y Swyddfa Fyfyrrwyr yw rheoleiddiwr y sector addysg uwch yn Lloegr ac mae ganddi swyddogaethau statudol penodol wedi'u nodi yn Neddf Addysg Uwch ac Ymchwil

2017. Mae rhagor o wybodaeth am y Swyddfa Fyfyrrwyr a'r gwaith rydym yn ei wneud ar ein gwefan yn:

www.officeforstudents.org.uk

Mae'r Swyddfa Fyfyrrwyr yn ymrwymedig i ddiogelu'ch gwybodaeth bersonol a bod yn glir am yr

wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a sut rydym yn ei defnyddio. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthy'ch beth i'w ddisgwyl pan fydd y Swyddfa Fyfyrrwyr yn casglu gwybodaeth bersonol.

Mae'r Swyddfa Fyfyrrwyr wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ein rhif cofrestru yw

ZA309955 a gallwch wirio manylion ein cofnod ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

<https://ico.org.uk/about-the-ico/what-we-do/register-of-fee-payers/>

3. Rheolydd data a Swyddog Diogelu Data

Y Swyddfa Fyfyrrwyr yw 'rheolydd data' unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir yng nghwmpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Mae ein lleoliad a'n manylion cyswllt wedi'u nodi isod:

Y Swyddfa Fyfyrrwyr

Nicholson House
Lime Kiln Close
Bryste
BS34 8SR
Rhif ffôn: 0117 931 7317
E-bost: dp@officeforstudents.org.uk

Ein Swyddog Diogelu Data yw'r pwynt cyswllt cyntaf i bobl y mae eu gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion uchod.

4. Sut byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Gallwn ond defnyddio'ch gwybodaeth bersonol pan fo diben neu ddibenion penodol am wneud hynny. Byddwn yn defnyddio'ch data personol i gysylltu â chi am ragor o adborth ar ddatblygiadau Darganfod Prifysgol yn unig.

I gyflawni'r nodau uchod, mae defnyddiau personol o'ch gwybodaeth bersonol wedi'u rhestru isod:

- I roi adborth ar ddatblygiadau'r wefan
- I gael eich barn yn rhinwedd eich swydd fel cynghorydd neu athro ar wefan Darganfod Prifysgol
- I'ch gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon, gweithdai neu weithgareddau ymgynghorol cysylltiedig yn y dyfodol yn rhinwedd eich swydd fel cynghorydd neu athro

Os ydym am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol am reswm ar wahân i'r dibenion a nodwyd uchod, byddwn yn dweud wrthy'ch cyn i ni ddechrau'r defnydd hwnnw ac yn darparu mwy o wybodaeth am y diben(ion) newydd.

5. Y sail gyfreithiol am ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae angen sail gyfreithiol arnom i allu prosesu'ch gwybodaeth bersonol at y dibenion a nodir uchod.

Yn yr achos hwn, mae'r sylfaen gyfreithiol yn ganiatâd dan Erthygl 6(1)(a) GDPR 2018.

Tynnu caniatâd yn ôl

Mae'n rhaid i ganiatâd fod yn weithred gadarnhaol glir eich bod wedi cytuno i'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, a gall caniatâd hefyd gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg

os nad ydych bellach yn fodlon ar y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol am reswm penodol. Os ydych am dynnu'ch caniatâd yn ôl, gwnewch hynny'n ysgrifenedig at:

Y Swyddog Diogelu Data

Y Swyddfa Fyfyrrwyr
Nicholson House
Lime Kiln Close
Bryste
BS34 8SR

[Cyfeiriad e-bost – dp@officeforstudents.org.uk]

Unwaith y bydd caniatâd yn cael ei dynnu'n ôl, byddwn yn dinistrio'r holl wybodaeth personol berthnasol oni bai ein bod yn dibynnu ar sail gyfreithiol wahanol i gyfiawnhau cadw'ch gwybodaeth personol. Os dyma'r achos, byddwn yn dweud wrthy'ch yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw tynnu eich caniatâd yn ôl yn effeithio ar gyfreithlondeb prosesu yn seiliedig ar ganiatâd cyn i chi dynnu'ch caniatâd yn ôl.

6. Yr wybodaeth personol y byddwn yn ei chasglu

Nodir yr wybodaeth personol y byddwn yn ei chasglu amdanoch chi fel rhan o'r arolwg hwn isod:

- Eich enw
- Eich cyfeiriad e-bost

7. I bwy rydym yn rhoi eich gwybodaeth personol

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch gwybodaeth i unrhyw sefydliad arall fel rheol ac eithrio lle mae'n rhaid i ni wneud hynny fel rhan o'n swyddogaethau neu yn ôl y gyfraith.

8. Lle bydd eich gwybodaeth personol yn cael ei storio

Caiff eich gwybodaeth personol ei storio'n ddiogel yn y Deyrnas Unedig ac ni fydd yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r diriogaeth honno oni bai fod gorchymyn llys yn gwneud hyn yn ofynnol.

9. Sut rydym yn diogelu'ch gwybodaeth personol

Mae gan y Swyddfa Fyfyrrwyr nifer o fesurau diogelwch ar waith i ddiogelu'ch gwybodaeth personol ac mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- Yn achrededig i'r safon Cyber Essentials PLUS ar gyfer seiberddiogelwch
- Mae gofyn i'r holl aelodau staff ymgymryd â hyfforddiant diogelu data a diogelwch gwybodaeth wrth ymuno â'r Swyddfa Fyfyrrwyr ac yna'n flynyddol
- Polisiâu diogelwch gwybodaeth ffurfiol sy'n rhaid eu darllen a'u deall gan yr holl staff
- Mae gwybodaeth personol ar gael yn unig i'r aelodau staff hynny y mae angen mynediad iddi fel rhan o'u rôl

10. Eich hawliau dros eich gwybodaeth bersonol

Unwaith y bydd eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei chasglu, mae gennych hawliau penodol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol honno y gallwch eu harfer.

Mae gennych yr hawl i ofyn am y canlynol:

- Copi o'ch gwybodaeth bersonol
- Bod gwybodaeth bersonol anghywir amdanoch yn cael ei chywiro
- Bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei dileu
- Bod gwaith i brosesu'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei gyfyngu
- Copi o'ch gwybodaeth mewn fformat sy'n caniatáu trosglwyddo data'n hawdd ("cluadadwyedd data")
- Nad ydych yn destun gwneud penderfyniadau neu broffilio awtomataidd (os yw'r rhain yn digwydd)

Mae gan yr holl hawliau hyn gyfyngiadau penodol yn dibynnu ar y cais a'r diben y mae gennym eich gwybodaeth bersonol ar ei gyfer.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am

yr hawliau hyn a'n prosesau ar gyfer ymdrin â cheisiadau o'r fath yn:

<https://www.officeforstudents.org.uk/privacy/individual-rights-under-the-general-dataprotection-regulation/>

11. Am ba mor hir y byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol?

Gallwn ond cadw copi o'ch gwybodaeth bersonol am gyhyd ag y mae ei hangen am y diben(ion) y cafodd ei chasglu yn y lle cyntaf. Caiff yr wybodaeth bersonol rydych wedi'i chyflwyno ei chadw am ddwy flynedd ar ôl cwblhau'r arolwg.

Ar ôl hynny, caiff eich gwybodaeth bersonol ei gwaredu mewn ffordd gyfrinachol a diogel.

12. Y defnydd o gwcis ar wefan y Swyddfa Fyfyrrwyr

Ffeiliau prawf sy'n cael eu rhoi ar eich cyfrifiadur i gasglu gwybodaeth safonol am ffeiliau cofnodi ar

y rhyngwrwd a gwybodaeth am ymddygiad ymwelwyr yw cwcis. Defnyddir yr wybodaeth hon i olrhain defnydd ymwelwyr

o'r wefan a chwblhau adroddiadau ystadegol ar weithgarwch ar y wefan. I gael mwy o wybodaeth

am ein cwcis, ewch i: <http://www.hefce.ac.uk/Cookies/> neu am ragor o wybodaeth

gyffredinol, ewch i: www.aboutcookies.org neu www.allaboutcookies.org.

13. Cwynion am y defnydd o'ch gwybodaeth bersonol

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae eich gwybodaeth bersonol wedi cael ei thrin gan y

Swyddfa Fyfyrrwyr, cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Diogelu Data (manylion yn adran 2) a byddwn yn ceisio datrys eich problem yn anffurfiol.

Os nad ydym yn gallu datrys y broblem yn foddhaol, gallwch hefyd

gyflwyno cwyn i'r awdurdod goruchwylio diogelu data. Yn y DU, dyma Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae modd cysylltu â'r swyddfa fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif ffôn: 0303 123 1113
E-bost: casework@ico.org.uk

14. Newidiadau i'r hysbysiad hwn

Rydym yn adolygu'n hysbysiadau preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r hysbysiad hwn yn ysgrifenedig dros e-bost.